

MY TIME.

MY SPACE.

MY LIBRARY.

Libraries  
Week

8-13  
OCTOBER  
2018

# Pecyn Offer Cysylltiadau Cyhoeddus

Mynnwch sylw yn y cyfryngau yr Hydref hwn

## Cyflwyniad

Yr Wythnos Llyfrgelloedd yw'r digwyddiad blynyddol i arddangos y gorau sydd gan lyfrgelloedd o bob math yn y DU i'w gynnig. O ddydd Llun 8 i ddydd Sadwrn 13 Hydref bydd llyfrgelloedd yn arddangos ym mha ffyrdd y maent yn dod â chymunedau at ei gilydd, trechu unigrwydd, darparu gofod ar gyfer darllen a chreadigrwydd a chynorthwyo pobl gyda'u llesiant a'u hiechyd meddwl

Mae Wythnos Llyfrgelloedd 2018 yn canolbwyntio ar 'lesiant', gyda'r neges: 'Fy amser i, Fy ngofod i. Fy llyfrgell i.'

## Ar gyfer beth mae'r pecyn offer hwn

Mae'r pecyn offer hwn yn darparu cyflwyniad ar sut i ledaenu'r neges am eich llyfrgell a'r gweithgareddau yr ydych yn eu cynnal ar gyfer yr Wythnos Llyfrgelloedd i'r cyfryngau. Mae cael sylw yn y cyfryngau yn ffordd bwysig o gyrraedd eich cymuned a chodi ymwybyddiaeth cyn ac ar ôl eich digwyddiadau.

Mae'r pecyn offer yn cynnwys **cyngor, awgrymiadau a thempledi** i'ch helpu i rannu eich cynlluniau a straeon newyddion am yr Wythnos Llyfrgelloedd gyda'ch gwasg leol, gymunedol neu sector. Mae'n syniad da defnyddio'r pecyn hwn mewn cydweithrediad â'n hawgrymiadau ar gyfer marchnata'r Wythnos Llyfrgelloedd.

Mae gweithio gyda'r cyfryngau yn sgwrs ac rydym yn gobeithio y byddwch yn defnyddio'r Wythnos Llyfrgelloedd i gynyddu a datblygu eich proffil yn y wasg yn yr hir dymor.

#librariesweek

Os oes gennych dîm neu adran cyfathrebu â'r wasg sydd fel arfer yn rheoli gweithgarwch y wasg neu gysylltiadau cyhoeddus y llyfrgell, dylech weithio gyda nhw a bydd y pecyn offer hwn yn eich helpu i ddeall sut i gael sylw cadarnhaol yn y wasg.

### Pa fath o storïau fydd o ddiddordeb i fy nghyfrwng targed?

Mae eich cyfryngau lleol, cymunedol neu ddiddordeb arbennig yn gyfrwng allweddol ar gyfer dosbarthu newyddion ac maent yn awyddus i gynnwys newyddion lleol, cyfoes a lliwgar – yn arbennig pan maent yn ymwneud â phobl a lleoedd yn y gymuned, digwyddiadau arbennig, neu pan fyddant yn cynnwys storïau am bobl bwysig.

Ar y cyfan, mae'r wasg leol yn awyddus iawn i gynnwys storïau cadarnhaol am blant, teuluoedd, lleoedd lleol, enwau adnabyddus, digwyddiadau cymunedol ac unrhyw beth diddorol, hwyliog neu anarferol sy'n digwydd.

Os ydych yn gweithio mewn gwasanaeth llyfrgell nad yw'n agored i'r cyhoedd mae yna nifer o allfeydd y wasg fasnachol, safleoedd o ddiddordeb arbennig, tudalennau a grwpiau ar-lein a fydd â diddordeb yn yr hyn yr ydych yn ei wneud ac mae'r un egwyddorion yn berthnasol.

### Adnabod a chyrraedd eich cyfryngau targed

Chwiliwch ar-lein, cwmnïau argraffu a'r cyfryngau darlledu i ganfod pwy yw'r newyddiadurwyr perthnasol neu ddylanwadwyr a pha ddiddordebau neu feysydd arbenigedd penodol sydd ganddynt – mae gan nifer o dimau newyddion lleol newyddiadurwyr a enwir sy'n cwmpasu rhanbarthau penodol sir, materion cyfoes lleol neu bynciau penodol.

Mae eu henwau a'u manylion cyswllt yn cael eu cyhoeddi ar y cyfan, sy'n golygu y gallwch roi gwybod iddynt am eich cynlluniau, newyddion neu ddigwyddiadau. Mae'r rhifau cyswllt fel arfer i'w canfod yn y papurau neu ar-lein (ewch i mediauk.com neu BT.com os nad oes gan deitlau unigol eu gwefannau eu hunain).

Gyda'r wasg leol, mae cyfeiriadau e-bost cyffredinol yn cael eu darparu'n aml ar gyfer eu desgiau newyddion neu ffotograffau, a gallech anfon datganiad i'r wasg neu ffotograff gwych atynt yn ogystal â'u hanfon yn uniongyrchol at staff a enwir, pan fydd hynny'n bosibl.

### Pryd a sut i gysylltu â'r wasg

Mae gennych ddau brif gyfle i estyn allan a dweud wrth eich cyfryngau a'ch cymuned am eich digwyddiadau: cyn ac ar ôl eich digwyddiad. Mae datganiadau i'r wasg yn darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar y cyfryngau i redeg eich stori ynglŷn â'r hyn yr ydych yn ei wneud heb orfod casglu'r wybodaeth eu hunain.

Os oes gennych eich cynlluniau, gyda manylion pwy fydd yn bresennol, beth fydd yn debygol o ddigwydd, gwybodaeth gefndir allweddol ac yn ddelfrydol ffotograffau o'r bobl allweddol neu weithgarwch, mae'n syniad da cyhoeddi datganiad i'r wasg ychydig wythnosau cyn y digwyddiad.

Rhywbeth arall y gallwch ei wneud tuag wythnos cyn eich digwyddiad yw gwahodd eich newyddiadurwyr targed i ddod draw i weld eu hunain drwy rannu amser a manylion y lleoliad drwy nodyn i'r dyddiadur neu gyfle i gymryd ffotograffau.

Mae'n arfer cyffredin iawn i anfon datganiad i'r wasg yn syth ar ôl digwyddiad, oherwydd dylai fod gennych y stori lawn sy'n cynnwys manylion diddorol, pwy wnaeth fynychu, ffeithiau, dyfyniadau a ffotograffau neu fideo diddorol gyda'ch testun. Dylid llunio'r datganiad a'i anfon cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad, h.y. ar yr un diwrnod neu'r diwrnod canlynol.

Mae penderfynu i ryddhau manylion i'ch cyfryngau targed cyn neu ar ôl digwyddiad yn dibynnu ar yr hyn sydd gennych wedi'i gynllunio a faint o amser ac ymdrech y gallwch eu buddsoddi – os oes gennych ddigwyddiad cadarn gyda llawer o bwyntiau diddorol, mae'n werth cwmpasu pob ongl. Os nad oes gennych ddigon o wybodaeth ymlaen llaw, mae'n well anfon datganiad da gyda'r pwyntiau allweddol yn syth ar ôl y digwyddiad.

Gallwch hefyd gysylltu wedyn â'ch cyfryngau targed dros y ffôn. Y syniad yw gwneud yn siŵr eu bod wedi derbyn a gweld eich datganiad i'r wasg ac i roi eich stori i'r newyddiadurwr neu ddylanwadwr. Yma rydych yn pwysleisio'r pwyntiau allweddol am eich stori a pham y dylai fod gan eich cyfryngau targed ddiddordeb.

Mae gennym **awgrymiadau ar gyfer ysgrifennu datganiad i'r wasg a dau dempled o ddatganiadau i'r wasg ar ddiwedd y pecyn offer hwn.** Maent yn dangos y strwythur disgwylidig a'r math o wybodaeth y gallwch ei chynnwys.

### [Digwyddiadau tynnu ffotograffau a nodiadau i'r dyddiadur.](#)

Os ydych yn cynllunio digwyddiad sy'n gyffrous yn weledol, h.y. côr cymunedol yn canu yn y llyfrgell neu ymweliad gan berson proffil uchel, mae'n werth gwahodd newyddiadurwyr eich cyfryngau targed neu ffotograffydd i ddigwyddiad tynnu ffotograffau a chael eu ffotograffau proffesiynol eu hunain o'r digwyddiad wrth iddo ddigwydd.

Gellir trefnu digwyddiad cymryd ffotograffau ochr yn ochr â datganiad i'r wasg neu ei anfon fel hysbysiad unigol i'r dyddiadur i ddesgiau ffotograffau neu unigolion os oes gennych fanylion cyswllt yr unigolyn cywir.

Gellir cyhoeddi nodyn dyddiadur i dimau cynllunio gorsafoedd darlledu lleol pan fydd gennych lefarwyr sy'n barod i gael eu cyfweld am y digwyddiad neu'r gweithgarwch sy'n cael ei gynnal - naill ai mewn stiwdio neu wedi'i recordio dros y ffôn. Ar rai achlysuron efallai y bydd newyddiadurwyr darlledu yn dymuno mynychu er mwyn recordio sain, cyfweliadau a vox pops.

Dylai'r digwyddiad cymryd ffotograffau / nodyn i'r dyddiadur gynnwys gwybodaeth gryno am y gweithgareddau penodol sy'n cael eu cynnal (yn seiliedig ar grynodedeb o'r wybodaeth o'ch datganiad i'r wasg) a chynnwys manylion am y bobl allweddol sy'n mynychu eich digwyddiad, e.e. ffigurau lleol, grwpiau perthnasol ac yn y blaen.

**Darperir templed o ddigwyddiad cymryd ffotograffau/nodyn i'r dyddiadur ar dudalen 11**

### [Ffotograffau](#)

Pryd bynnag y bo'n bosibl, wrth ddarparu datganiadau i'r wasg a gwybodaeth i'r cyfryngau dylid anfon ffotograffau trawiadol hefyd sy'n helpu i ddod â'r stori'n fyw i ddarllenwyr allfeydd eich cyfryngau targed. Mae eich stori yn llawer mwy tebygol o ddenu sylw os bydd ffotograffau diddorol, o ansawdd da yn cael eu darparu, y gellir eu harddangos yn glir ar eu gwefannau newyddion neu wedi'u hargraffu.

Er mwyn sicrhau bod ansawdd ffotograffau yn ddigon da i'w defnyddio, mae angen i ffotograffau gael eu cymryd ar gamera o ansawdd da neu gael eu cymryd gan ffotograffydd proffesiynol. Fodd bynnag, ar gyfer ffotograffau i'w defnyddio ar y we (e.e. newyddion ar-lein), gallai ffotograffau manylder uchel weithio'n dda, cyhyd â'u bod yn glir, wedi'u goleuo'n dda ac nid ydynt yn aneglur.

Os ydych wedi hysbysu'r wasg ynglŷn â'r digwyddiad drwy nodyn i'r dyddiadur neu ddigwyddiad cymryd ffotograffau, y gobaith yw y gallant fynychu a chymryd eu ffotograffau eu hunain – ond ceisiwch gael eich rhai eich hun hefyd.

Mae'n werth sicrhau ffotograffau da ond oes nad oes gennych yr offer neu'r sgiliau, gallech wahodd rhywun o'ch cymuned a all gymryd ffotograffau i chi a gofynnwch iddynt anfon y ddau neu dri ffotograff gorau yn syth wedyn er mwyn i chi eu cynnwys gyda'ch datganiad i'r wasg. Mae ffotograffau yn fuddsoddiad yn eich gwasanaeth oherwydd gallwch ddefnyddio deunydd gweledol da mewn taflenni, yn y cyfryngau cymdeithasol ac ar draws eich dulliau marchnata ac adrodd storïau.

Fel y gwyddoch, wrth ffilmio neu gymryd ffotograffau o blant, mae'n rhaid sicrhau caniatâd gan riant neu warcheidwad cyn y gallwch eu defnyddio. Mae hefyd yn syniad da hysbysu aelodau'r cyhoedd er mwyn iddynt hwy allu rhoi eu caniatâd neu roi gwybod i chi y byddai'n well ganddynt beidio cael eu cynnwys. Mae **templed o ddatganiad am ffotograffiaeth ar dudalen 11**.

Wrth anfon gwybodaeth a datganiadau i'r wasg, rhowch wybod iddynt pa ffotograffau sydd ar gael naill ai drwy nodyn yn y nodiadau ar ddiwedd y datganiad, neu gallwch eu hatodi i'ch neges e-bost fel atodiadau manylder isel (os ydynt yn rhai rhy fanwl, efallai y byddant yn bownsio yn ôl neu'n llenwi blwch post newyddiadurwr – byddant yn gofyn am fersiynau mwy os ydynt am eu defnyddio).

Wrth anfon ffotograffau, dylech gynnwys pennawd sy'n darparu manylion am eich digwyddiad neu weithgarwch a lleoliad ac enwau'r bobl yn y llun, e.e.

“Y cyflwynydd teledu lleol [Jane Doe] gyda phlant o [ein hysgol gynradd leol] yn cymryd rhan yn her Minecraft yr Wythnos Llyfrgelloedd yn Llyfrgell [XX].”

[Gwahodd unigolyn allweddol i'ch digwyddiad yr Wythnos Llyfrgelloedd](#)

Mae nifer o ddigwyddiadau llyfrgelloedd yn derbyn hwb os bydd unigolion lleol poblogaidd neu bobl proffil uchel perthnasol yn cymryd rhan yn y prif ddigwyddiadau fel gwesteion anrhydeddus, yn rhoi cyflwyniadau ac yn y blaen.

Gallwch anelu'n uchel bob tro – os mai eich Aelod Seneddol yw'r prif berson yr ydych eisiau eu cael yn y llyfrgell, ni ddylech dybio y byddant yn rhy brysur i fynychu. Mae Aelodau Seneddol yn treulio bob dydd Gwener yn eu hetholaeth fel arfer, felly bydd y rhan fwyaf ohonynt adref ar ddiwedd yr wythnos. Mae aelodau'r cabinet a phrif weinidogion hyd yn oed wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau yn eu cymuned leol.

Gallai fod sensitifrwydd gwleidyddol ynghylch llyfrgelloedd, ond cofiwch ei bod yn haws ennyn diddordeb eich AS, Maer neu gynghorydd os bydd yr agwedd yn gadarnhaol a chalonogol ac os byddant yn rhan o ddatliad neu arddangosfa gymunedol. Er hynny, maent yn bobl brysur, felly os ydych yn eu gwahodd, gwnewch yn siŵr bod ganddynt rôl benodol i'w chwarae, e.e. gwneud cyhoeddiad byr, agor digwyddiad yn ffurfiol ac yn y blaen - yna maent yn fwy tebygol o ystyried mynychu.

Ar y cyfan, mae gan y rhan fwyaf o bobl proffil uchel wefannau neu fywgraffiadau ar-lein gyda manylion sut i gysylltu â hwy (neu efallai y gallwch anfon neges atynt drwy Twitter).

Cysylltwch â'r gwestai pwysig o'ch dewis cyn gynted â phosibl - bydd eu dyddiaduron yn llenwi'n gyflym, hyd yn oed ar benwythnosau. Ffoniwch eu swyddfa i ddechrau a gofyn am y wybodaeth gyswllt briodol. Anfonwch eich llythyr i'w swyddfa drwy e-bost, os na fyddwch yn derbyn ateb ar ôl ychydig ddyddiau, ffoniwch hwy.

Os byddwch yn llwyddo a'u bod yn cytuno i fynychu, gofynnwch iddynt am sylw am eich gwasanaeth ar y dydd y maent yn fodlon i chi ei ddefnyddio yn eich datganiad i'r wasg.

Mae **templed o lythyr gwahodd yn gwahodd ffigur gwleidyddol ar dudalen 9**.

#### Saith awgrym ar gyfer datganiad i'r wasg da

1. Meddyliwch am bennawd bachog a chryno ar gyfer eich datganiad. Dylai hyn gael ei ysgrifennu mewn teip trwm ac mewn ffont mwy na phrif gorff y datganiad. Gallwch ddefnyddio is-bennawdau hefyd i amlygu agweddau allweddol o'ch stori, er enghraifft os bydd gwestai arbennig yn mynychu eich digwyddiad. Dylai hyn fod mewn teip trwm unwaith eto, ond mewn ffont ychydig yn llai na'r pennawd.
2. Dylai'r paragraff cyntaf grynhai eich datganiad mewn ychydig frawddegau byr, ar y mwyaf, gyda gweddill y datganiad yn ymhelaethu ar hyn. Rheol dda yw defnyddio 'pwy, pam, pryd, lle, a phryd. Mae hyn yn galluogi i newyddiadurwyr weld yn gyflym am beth mae eich stori yn sôn - po fwyaf diddorol y gallwch wneud y paragraff cyntaf, y mwyaf tebygol y maent o ddarllen ymlaen hyd at ddiwedd y datganiad.
3. Dylai eich datganiad i'r wasg fod yn un dudalen o hyd. Dylech ei gadw'n glir, gan osgoi defnyddio brawddegau a pharagraffau hir iawn, ailadrodd, iaith flodeuog a jargon. Gwnewch yn siŵr bod y datganiad yn ramadegol gywir ac nad yw'n cynnwys unrhyw wallau sillafu.
4. Dylech gynnwys dyfyniad gan eich llefarydd a/neu, os yn bosibl, sylw gan unrhyw westeion arbennig a drefnwyd i fynychu. Gall hyn ychwanegu lliw i'r stori a galluogi newyddiadurwyr prysur i gwblhau erthygl heb orfod trefnu cyfweliad dilynol.

5. Dylech gynnwys 'galwad i weithredu' ym mhrif gorff testun y datganiad – y wybodaeth yr ydych eisiau i'r cyhoedd ei chofio o unrhyw erthygl maent yn ei darllen, e.e. tudalen gwe y gallant ymweld â hi i gael gwybod mwy am eich digwyddiad, neu rif ffôn i'ch hysbysu eu bod yn awyddus i fynychu.

6. Yn dilyn prif gorff eich datganiad i'r wasg dylech gynnwys adran 'nodiadau i olygyddion', a ddylai gynnwys manylion cyswllt a gwybodaeth am eich llyfrgell, a'r Wythnos Llyfrgelloedd. Os oes gennych unrhyw ffotograffau ar gael, nodwch y gallwch gyflenwi ffotograffau ar gais. Dylai'r manylion cyswllt gynnwys enw, rhif ffôn (rhif ffôn symudol yn ddewisol) a chyfeiriad e-bost ar gyfer unrhyw ymholiadau sy'n gysylltiedig â'ch stori.

7. Defnyddiwch eich pennawd ar gyfer maes pwnc eich neges e-bost. Pan fydd yn bosibl, ni ddylech bostio neu anfon gwybodaeth i'r wasg drwy'r ffacs oherwydd bydd yn annhebygol o gael ei agor a / neu caiff ei roi ar unwaith yn y bin ailgylchu!

Mae **enghraifft o ddatganiadau i'r wasg ar dudalen 7 ac 8.**

[Rhai awgrymiadau ar gyfer gwerthu eich stori i'ch cyfryngau allweddol](#)

1. Cysylltwch â'ch papur newydd neu orsaf radio leol a gofyn i gael siarad â rhywun ar ddesg newyddion y cyhoeddiad neu raglen berthnasol. Mae'r rhifau cyswllt fel arfer o fewn y papurau neu ar-lein (ewch i [mediauk.com](#) neu [BT.com](#) os nad oes gan deitlau unigol eu gwefannau eu hunain).

2. Gwnewch yn siwr eich bod yn gofyn am enw'r person yr ydych yn siarad â hwy neu, os byddant yn eich cyfeirio at rywun arall yn y cyhoeddiad, rhif ffôn deialu uniongyrchol a chyfeiriad e-bost yr unigolyn. Bydd hyn yn eich helpu i gael eich stori i'r person cywir ac mae'n golygu y gallwch gysylltu'n uniongyrchol â hwy ar ôl anfon y wybodaeth atynt.

3. Rhowch grynodeb iddynt (dim mwy na 30 eiliad) yn esbonio pwy ydych chi, o ble'r ydych chi'n ffonio a beth yw pennawd y stori, e.e. *"Hydref 8-13 yw'r Wythnos Llyfrgelloedd ac er mwyn helpu teuluoedd i ddarganfod sut y gall y llyfrgell eu helpu gyda'u hiechyd, byddwn yn cynnal clinig iechyd cymunedol..."* ac yn y blaen.

4. Anfonwch y datganiad i'r wasg yng nghorff y neges e-bost at newyddiadurwyr, a dylech gynnwys un neu ddau o ffotograffau enghreifftiol (mewn manylder isel) o'ch digwyddiad, os yw'n berthnasol.

5. Dylech fod yn ystyriol o derfynau amser newyddiadurwyr cyn ffonio. Bydd terfyn amser pobl sy'n gweithio ar bapurau nos yn fwyaf tebygol o fod tua diwedd y bore ac ni fydd ganddynt amser i siarad neu byddant yn anwybyddu'r hyn sy'n cael ei gynnig; yn yr un modd, ni fydd gan ohebwy'r ar bapurau dyddiol bore lawer o amser i siarad yn agos at ddiwedd y diwrnod gwaith.

6. Hyd yn oed os nad yw aelodau o'ch gwasg darged neu gymuned wleidyddol wedi ymateb i'ch hysbysiadau neu wahoddiadau i ddigwyddiadau, peidiwch â bod ofn rhannu gwahoddiad neu ddolen i'ch newyddion neu ddigwyddiadau gyda hwy drwy Twitter. Mae'r holl newyddiadurwyr ac allfeydd yn cyhoeddi eu dolenni Twitter erbyn hyn a thrwy gynnwys eu dolenni Twitter ar eich trydar chi, efallai y byddant yn dangos diddordeb yn eich stori.

## Wythnos Llyfrgelloedd 2018

TEMPLED DATGANIAD I'R WASG

(Nodwch y dyddiad yma)

Gosodwch logo'r llyfrgell yma

### CANU AR GYFER YR YMENNYDD YN LLYFRGELL [XX] AR GYFER YR WYTHNOS LLYFRGELLOEDD

- **Bydd [unigolyn / maer ac yn y blaen/] [nodwch yr enw] lleol yn ymuno â'r preswylwyr ar y diwrnod**
- **[Crynodeb o'r gweithgarwch e.e. Perfformiad arbennig gan gôr lleol yn uchafbwynt wythnos o ddigwyddiadau llesiant]**

Mae Llyfrgell [XX] yn cynnal wythnos o ddigwyddiadau llesiant, gan gynnwys ymweliad gan [nodwch enw'r Gwestai arbennig fel y bo'n briodol] yn 8-13 Hydref, i ddathlu Wythnos Llyfrgelloedd. Bydd yn amlygu'r gwahanol ffyrdd y gall y llyfrgell helpu pobl o bob oed gyda'u hiechyd a'u llesiant meddwl.

Bydd [teitl (awdur/cyflwynydd teledu ac yn y blaen.)] [Jane Doe] lleol yn y llyfrgell yn cymryd rhan yn ein sesiynau Canu ar gyfer yr Ymennydd gyda phlant ysgol lleol ar [nodwch y dyddiad] o [nodwch yr amseroedd yma].

Bydd gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar lesiant ar gael i oedolion a phlant, gan gynnwys sesiynau lliwio, Gwau a Chlonc, clybiau sgwrsio a chyflwyniad i lyfrau hunangymorth. Bydd aelodau côr cymunedol [enw] yn rhoi perfformiad arbennig yn y llyfrgell am [amser] ar [dyddiad] i grynhoi'r Wythnos Llyfrgelloedd.

Dyweddodd [XX] llefarydd y llyfrgell [nodwch yr enw], "Mae gennym raglen wych o weithgareddau yn ystod Wythnos Llyfrgelloedd ac rydym yn gobeithio y byddant yn dod â'r gymuned at ei gilydd a chael gwybod mwy am y ffyrdd y gallwn helpu gyda'ch llesiant. Mae croeso i bawb a gallwch ymuno â'r llyfrgell am ddim. Rwy'n falch iawn y bydd côr cymunedol [enw] yn llenwi'r llyfrgell â chân ar [dyddiad]."

Mae gan Lyfrgell [XX] [xx o wasanaethau llesiant] ac mae'n cynnal [yy] o sesiynau drwy'r flwyddyn. Gall ymwelwyr newydd ymuno â'r llyfrgell unrhyw bryd yn ystod ei horiau agor.

Yr Wythnos Llyfrgelloedd yw'r digwyddiad blynyddol i arddangos y gorau sydd gan lyfrgelloedd o bob math yn y DU i'w gynnig yn ystod ail wythnos Hydref.

I gael y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i [nodwch fanylion eich gwefan/cyfringau cymdeithasol yma].

### NODIADAU I OLYGYDDION

#### Ynglŷn â Llyfrgell [XX]

[Nodwch wybodaeth yma]



## Ynglŷn â'r Wythnos Llyfrgelloedd

Cynhelir yr Wythnos Llyfrgelloedd rhwng 8-13 Hydref i ddathlu llyfrgelloedd hoff y wlad. Yn 2018, gyda ffocws ar lesiant, bydd llyfrgelloedd yn arddangos ym mha ffyrdd y maent yn dod â chymunedau at ei gilydd, trechu unigrwydd, darparu gofod ar gyfer darllen a chreadigrwydd a chynorthwyo pobl gyda'u hiechyd a'u llesiant meddwl [www.librariesweek.org.uk](http://www.librariesweek.org.uk) @librariesweek #librariesweek

### Cyswllt y wasg

Am wybodaeth bellach [nodwch eich manylion cyswllt yma – enw, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost]

[Ffotograffau ar gael ar gais]

### Templed o Ddatganiad i'r Wasg – ymweliad Gwleidydd

Gosodwch logo'r llyfrgell yma

(Nodwch y dyddiad yma)

## **GWLEIDYDD LLEOL [TEITL] [ENW] YN YMUNO Â DIGWYDDIADAU'R WYTHNOS LLYFRGELLOEDD YN LLYFRGELL [XX]**

Fe agorodd [nodwch enw], [teitl gwleidyddol] ar gyfer [nodwch yr etholaeth neu swydd] lansiad diwrnod [gweithgarwch] yn Llyfrgell [XX] fel rhan o'r Wythnos llyfrgelloedd, dathliad ar draws y DU gyfan a gynhelir o 8 i 13 Hydref.

Dywedodd [nodwch enw a theitl] yn Llyfrgell [XX]: "Roedd yn gyffrous iawn croesawu [nodwch enw] i lansio ein [enw'r digwyddiad/gweithgarwch] ac [iddynt] weld y llyfrgell ar waith a'r gwahanol ffyrdd y gallwn wella bywyd yn y gymuned a helpu pobl gyda'u [hiechyd/llesiant/llythrennedd/cyflogaeth]."

Mae gennym fwy na [nodwch y nifer] o aelodau ac mae XX% yn [blant lleol / demograffeg ac yn y blaen]" meddai [nodwch enw]. Ein gwasanaeth mwyaf poblogaidd yw xx/xx ac mae hyn [ffaith ynghylch pam fod hyn yn ddiddorol]."

Dywedodd [nodwch enw], sy'n cymryd rhan yn Llyfrgell [XX], "Diolch yn fawr iawn i [nodwch enw] a'r staff yn Llyfrgell XX am ddiwrnod gwych ddydd [diwrnod] ar gyfer Wythnos Llyfrgelloedd. Fe wnes i gwrdd â llawer o ddefnyddwyr y llyfrgell a ddywedodd wrthyf pa mor ddefnyddiol yw'r llyfrgell iddynt hwy. Mae'r llyfrgell yn wasanaeth cymunedol gwych ac mae am ddim ac ar gael i bawb. Gallwch gerdded i mewn a chymryd rhan yn yr hyn sy'n cael ei gynnig."

Mae gan dros hanner poblogaeth y DU gerdyn llyfrgell ac mae bron i 10 miliwn yn fenthycwyr gweithredol. Mae'r Wythnos Llyfrgelloedd yn arddangos y gorau sydd gan llyfrgelloedd y DU i'w gynnig ac annog pawb i ddarganfod yr hyn y gall eu llyfrgell ei wneud iddynt hwy.

Mae defnyddio'r llyfrgell hefyd yn dda i'n hiechyd, gyda defnyddwyr rheolaidd yn datgan iechyd gwell sy'n arbed £27.5 miliwn y flwyddyn i'r GIG yn Lloegr a datgan lefelau uwch o foddhad bywyd, hapusrwydd ac ymdeimlad o ddiben mewn bywyd o gymharu â phobl nad ydynt yn eu defnyddio.



Dywedodd [nodwch enw] “Mae pob un o’n gwasanaethau wedi’u cynllunio ar gyfer y gymuned ac mae cymaint ar gael iddynt. Dewch draw unrhyw amser i gael croeso cynnes gan y staff, cael sgwrs a chanfod y gwahanol bethau a wnawn drwy’r flwyddyn.”

I gael gwybodaeth bellach am unrhyw rai o ddigwyddiadau Wythnos Llyfrgelloedd Llyfrgell [XX] neu unrhyw rai o wasanaethau eraill y llyfrgell, cysylltwch â [nodwch y manylion cyswllt yma].

## **NODIADAU I OLYGYDDION**

### **Cyswllt y wasg**

Cyswllt [enw, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost]  
[nodwch fanylion eich gwefan/cyfryngau cymdeithasol]  
Nodwch fod ffotograffiaeth ar gael os yw’n berthnasol

### **Ynglŷn â Llyfrgell [XX]**

[Nodwch wybodaeth yma]

### **Ynglŷn â’r Wythnos Llyfrgelloedd**

Cynhelir yr Wythnos Llyfrgelloedd rhwng 8-13 Hydref i ddathlu llyfrgelloedd hoff y wlad. Yn 2018, gyda ffocws ar lesiant, bydd llyfrgelloedd yn arddangos ym mha ffyrdd y maent yn dod â chymunedau at ei gilydd, trechu unigrwydd, darparu gofod ar gyfer darllen a chreadigrwydd a chynorthwyo pobl gyda’u hiechyd a’u llesiant meddwl [www.librariesweek.org.uk](http://www.librariesweek.org.uk) @librariesweek #librariesweek

[Templed llythyr/e-bost ar gyfer cysylltu â’ch arweinydd gwleidyddol lleol](#)

Annwyl [nodwch enw yma],

Rwy’n cysylltu â chi o Lyfrgell [XX] cyn yr Wythnos Llyfrgelloedd a gynhelir o 1-13 Hydref, dathliad ar draws y DU gyfan o’n llyfrgelloedd hoff.

Gyda ffocws ar lesiant rydym yn manteisio ar y cyfle a gynigir gan yr Wythnos Llyfrgelloedd i annog pawb yn y gymuned i ddarganfod beth y gall eu llyfrgell wneud iddynt hwy. Rwy’n gobeithio y gallwch ymuno â ni am awr neu ddwy yr wythnos hon, fel rhan o raglen gyffrous o weithgareddau a gynhelir gennym i amlygu ein [nodwch pa wasanaeth].

[Ynglŷn â’r llyfrgell, e.e. Mae gennym fwy na [nodwch y nifer] aelod, gan gynnwys [nodwch y nifer] o blant ac [oedolion] yn Llyfrgell XX. Mae gennym fwy na [nodwch y nifer] o lyfrau ar gael i ddarllenwyr, ar ffurf print a digidol, ac mae defnyddwyr yn ymweld â ni fwy na [nodwch y nifer] o weithiau y flwyddyn ar gyfer popeth o [e.e. fenthyca llyfrau, clybiau gwaith cartref, clinigau cyflogaeth] i [e.e. amser rhigymau i fabanod ac yn y blaen].

[Mae gennym nifer o wasanaethau allweddol sy’n targedu anghenion gwahanol y gymuned:

- Sesiynau sgiliau digidol, wedi'u hanelu ar gyfer grwpiau gwahanol – er enghraifft pobl sy'n awyddus i ddiweddarau eu sgiliau cyflogaeth, neu sesiynau addysgol i rieni a phlant bach a sesiynau diogelwch iPad
- Sesiynau rheolaidd gydag ymwelwyr iechyd a chyngor iechyd mewn partneriaeth â [xx] lle gallwch gyrraedd llawer mwy o bobl â chyflyrau [xx]
- Mae cannoedd o blant a rhieni yn sicrhau'r dechrau gorau i lythrennedd eu plant a darllen er pleser ac maent yn dod at ei gilydd gyda theuluoedd eraill yn y gymuned drwy ein sesiynau Amser Rhigymau ac Amser Stori wythnosol [*ac yn y blaen, ychwanegwch/diwygiwch fel y bo'n briodol*]

Byddai'n wych i bawb yn y gymuned pe gallech chi ymuno â ni ar [dyddiad] a'n helpu i arddangos Llyfrgell [XX], a lansio ein diwrnod [enw'r gweithgarwch].

Mae ein llyfrgell ni yn un o'r miloedd o lyfrgelloedd ar hyd a lled y DU sy'n dathlu'r Wythnos Llyfrgelloedd, a byddwn yn hyrwyddo ein digwyddiadau a'ch ymweliad chi yn helaeth, gyda'r gobaith o ddenu cymysgedd gwych o bobl leol y cewch gyfle i'w cwrdd. Rydym hefyd yn awyddus i wahodd y cyfryngau lleol i fynychu ein dathliadau a'ch ymweliad chi.

Rwy'n gobeithio y gallwch ymuno â ni. Rhowch wybod i mi os oes gennych unrhyw gwestiynau, ac edrychaf ymlaen i glywed gennych yn fuan.

Yr eiddoch yn gywir,

## **Nodwch eich manylion cyswllt**

### **Ynglŷn â'r Wythnos Llyfrgelloedd**

Cynhelir yr Wythnos Llyfrgelloedd rhwng 8-13 Hydref i ddathlu llyfrgelloedd hoff y wlad. Yn 2018, gyda ffocws ar lesiant, bydd llyfrgelloedd yn arddangos ym mha ffyrdd y maent yn dod â chymunedau at ei gilydd, trechu unigrwydd, darparu gofod ar gyfer darllen a chreadigrwydd a chynorthwyo pobl gyda'u hiechyd a'u llesiant meddwl [www.librariesweek.org.uk](http://www.librariesweek.org.uk) @librariesweek #librariesweek

[Templed Nodyn i'r Dyddiadur / Cymryd Ffotograffau i'w gyhoeddi i'r cyfryngau](#)

**Pwy:** [defnyddiwch y llinell hon i roi sylw i'r digwyddiad, gwesteion arbennig, e.e. Aelod Seneddol, awdur ac yn y blaen]

**Beth:** Mae Llyfrgell [XX] yn dathlu'r Wythnos Llyfrgelloedd gyda digwyddiad arddangos XX arbennig

**Pryd:** xx Hydref 2018 o [nodwch yr amser]

**Lle:** Llyfrgell [XX] Llyfrgell, cyfeiriad

**Cefndir:** I ddathlu'r Wythnos Llyfrgelloedd, 8-13 Hydref, mae Llyfrgell [XX] yn cynnal diwrnod o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer [nodwch y gynulleidfa/demograffeg] er mwyn arddangos [adnoddau/gwasanaeth mwyaf poblogaidd/casgliad ac yn y blaen] y llyfrgell. Bydd [rhagflas o'r hyn sy'n digwydd], a bydd [nodwch AS, Maer, rhywun enwog, awdur, ac yn y blaen] yn bresennol i [nodwch y gweithgarwch].

Mae amserlen lawn o'r digwyddiadau a'r gweithgareddau fel a ganlyn:

[Rhestrwch y digwyddiadau yn ôl trefn amser, gan gynnwys enwau pobl a sefydliadau sy'n eu cynnal, ar gyfer pwy y maent (myfyrwyr, oedolion, plant, yr henoed, ceiswyr gwaith ac yn y blaen)]

AR GAEL AR Y DYDD:

**Ffotograffiaeth o:**

- [nodwch yr enw] yn cyhoeddi bod Llyfrgell [XX] ar agor ar gyfer yr Wythnos Llyfrgelloedd
- Ffotograffau o blant a rhieni sy'n mynychu [nodwch y digwyddiad]
- Ffotograffau o [nodwch enwau'r siaradwr/gwestai arbennig] [yn gwneud beth]

**Cyfweliadau gyda:**

- Llefarydd Llyfrgell [XX] [nodwch yr enw]
- Person lleol [nodwch yr enw/teitl]
- Awdur Lleol [nodwch yr enw]

I gadarnhau presenoldeb neu i gael gwybodaeth bellach:  
[nodwch eich manylion cyswllt yma: enw, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost]

Gosodwch logo'r llyfrgell yma

**Digwyddiad:** [Nodwch enw'r digwyddiad yma e.e. Awdur/Sgwrs Academaidd, Amser Rhigymanau ac yn y blaen]

**Lleoliad:** [Nodwch fanylion y cyfeiriad yma]

**Dyddiad:** [Nodwch y dyddiad a'r amser pan fyddant yn berthnasol yma]

Rwy'n rhoi fy nghaniatâd i XXX dynnu ffotograffau ohonof a/neu fy ffilmio. Rwy'n deall mai XXX fydd yn berchen ar yr hawlfraint i'r ffotograff/fideo/sain ac rwy'n caniatáu i fy nelwedd a/neu fy llais gael eu defnyddio gan XXX.

[Esboniwch sut y defnyddir y ddelwedd/ffilm gan eich sefydliad, sut y byddant yn cael eu storio ac am ba hyd].

Rwy'n rhoi caniatâd ar gyfer ffotograffiaeth yn unig

Rwy'n rhoi caniatâd ar gyfer ffotograffiaeth a ffilmio

-neu-

Rwy'n rhoi fy nghaniatâd i fy mhlentyn gael ei ffilmio/tynnu ffotograffau ohonynt at ddibenion y cyfryngau, er enghraifft y cyfryngau lleol a chenedlaethol a gwefan swyddogol Llyfrgell [XX]. sianelau rhwydweithio cymdeithasol a chyfathrebu mewnol.

Llofnod: \_\_\_\_\_

Enw: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

E-bost: \_\_\_\_\_

[D.S. Gwnewch yn siwr eich bod yn sicrhau caniatâd yn unol â pholisi preifatrwydd a diogelu data eich sefydliad.]

# Libraries Week

8-13  
OCTOBER  
2018

**Wythnos Llyfrgelloedd 8-13 HYDREF 2018**

Attribution-ShareAlike 2.0 UK: Cymru a Lloegr ([CC BY-SA 2.0 UK](https://creativecommons.org/licenses/by-sa/2.0/uk/))

Mae croeso i chi ddefnyddio, copïo, addasu, trawsnewid ac adeiladu ar y deunydd hwn.